Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adroddiad Gweithredu 2022/23

Rhagfyr 2023



Gallwn ddarparu crynodeb y ddogfen hon mewn fformatau hygyrch gan gynnwys Braille, print bras a Hawdd ei Ddarllen. Er mwyn gwneud cais, cysylltwch â ni:


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau Adroddiad Gweithredu 2022/23

# Cynnwys


6 Rhagair

7 Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

8 Amdanom ni

9 Ein hadeilad

10 Adroddiad gweithredu

15 Newid hinsawdd a risg newid hinsawdd

16 Adrodd a chynllunio

# Rhagair

**Mae gwarchod yr amgylchedd yn parhau yn flaenoriaeth i ni. Lle y bo'n bosibl, rydym yn gweithio tuag at leihau effaith y swyddfa ar yr amgylchedd ac yn ceisio gweithredu mewn ffordd gynaliadwy a chyfrifol.**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar ein perfformiad a gweithredoedd yn ystod 2022/23 o dan y ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae hefyd yn amlinellu ein cynnydd yn y 'meysydd lle mae angen gwella' a nodwyd gennym yn 2021/22:

- adolygu'r offer sydd ar gael i werthuso'n gynhwysfawr ein hôl troed carbon ac ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i'w defnyddio;
- ystyried effaith cynaladwyedd lleihau/addasu ein gofod swyddfa; a
- annog staff i ystyried ffyrdd y gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi lleihau gofod ein swyddfa. Rydym yn parhau i weithredu model hybrid o weithio, gyda llawer o'n staff yn parhau i weithio o gartref ac yn mynychu'r swyddfa yn dibynnu ar yr angen.  Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein perfformiad cynaliadwyedd eleni.

Fel y llynedd, ffactor pwysig sydd wedi llywio ein gwaith yn ystod 2022/23 fu'r cynnydd sylweddol iawn yn ein gwaith achos. Rhoddodd y cynnydd hwnnw ein staff o dan bwysau sylweddol. O ystyried hyn, gwyddom fod angen i ni fod yn realistig wrth osod ein nodau cynaliadwyedd, gan ganolbwyntio ar nifer cyfyngedig o gamau gweithredu a all gael yr effaith fwyaf.

## Michelle Morris

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Rhagfyr 2023

# Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd fanylach ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (dyletswydd adran 6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru.

Mae dyletswydd adran 6 yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn gywir, ac wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd yr ecosystemau'.

Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai awdurdodau cyhoeddus ymwreiddio'r ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau i mewn i'w meddwl cynnar a'u cynlluniau busnes, gan gynnwys unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal ag i'w gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Caiff OGCC ei gynnwys o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus o dan delerau'r Ddeddf ac felly mae'n ofynnol i ni gyhoeddi adroddiad ynglŷn â sut y gwnaethom gydymffurfio â dyletswydd adran 6.

Er nad yw OGCC yn destun i ddyletswyddau llawn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn cefnogi gweledigaeth y Ddeddf yn llawn er mwyn creu Cymru fwy cynaliadwy.

# Amdanom ni

Mae gennym dair rôl yn bennaf.

Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.

Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol o holl gyrff y llywodraeth ac mae ein gwasanaeth yn ddi-dâl.

# Ein hadeilad

Rydym yn parhau i feddiannu un swyddfa ym Mhencoed, ger Pen-y-bont ar Ogwr. Yn wreiddiol, gwnaethom gymryd y brydles ar gyfer llawr gwaelod yr adeilad yn 2005 ac ers hynny, rydym wedi ymestyn i feddiannu rhannau o'r llawr cyntaf a'r ail lawr, er mwyn darparu lle i dros 70 o staff ac ymwelwyr mewn swyddfa sydd yn bennaf yn un cynllun agored.

| Adeilad | Adeiladwyd | Nifer o Loriau | Cyfanswm Arwynebedd Llawr y gellir ei ddefnyddio (tr2) | Math o Wres |
|---|---|---|---|---|
| 1 Ffordd yr Hen Gae | 2004 | 3 | 16,460 | Unedau Trin Aer |

Trydan yw'r unig gyflenwad ynni sy'n cael ei ddefnyddio ac mae hwn yn darparu golau a darparu gwres/oerni yn ogystal â phweru cyfarpar arferol y swyddfa.

O fis Ionawr 2023, rydym wedi lleihau gofod y swyddfa a ddefnyddiwn, yn unol â'n model newydd o weithio hybrid ac ystwyth. (Rydym yn ceisio adlewyrchu'r lleihad hwn yn y trefniadau prydles diwygiedig, ond mae'r tabl uchod yn dangos yr arwynebedd llawr llawn sydd wedi'i gynnwys ar hyn o bryd yn ein prydles.) Er bod ein les bresennol yn parhau tan 2025, rydym wrthi'n marchnata'r gofod ychwanegol yn y cyfamser i gyflawni arbedion cyn gynted â phosibl.

# Adroddiad gweithredu



Gwnaethom ailgylchu 95% o'n gwastraff.



Defnyddiom ond ychydig bach yn fwy o drydan na'r llynedd.



Gwnaethom leihau gofod y swyddfa a ddefnyddiwn.



Wnaethom osgoi 134 kg o $CO_2$ mewn allyrdiadau.

## 1. Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn ymwreiddio bioamrywiaeth drwy wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Mae sylw i gynaliadwyedd wedi'i integreiddio i'n polisïau allweddol a'n cynlluniau strategol allweddol.  Er enghraifft:

- Ar ddechrau mis Ebrill 2023, gwnaethom lansio ein Cynllun Strategol 2023-2026 newydd. O dan ein Nod Strategol 4 newydd, 'Sicrhau ein bod yn sefydliad iach, effeithlon ac atebol', rydym wedi ymrwymo i 'Chwarae ein rhan i amddiffyn yr amgylchedd, drwy leihau ein hôl-troed carbon ymhellach.'
- Yn ystod cyfnod y Cynllun, rydym wedi nodi Targedau Perfformiad Allweddol mewn perthynas â gwastraff a thrydan.
- Yn ein Cynllun Busnes 2023/24, rydym yn ymrwymo i
  - Gynnal defnydd ynni a gwastraff er gwaethaf mwy o bresenoldeb yn y swyddfa (wedi'i gyflawni pan nad yw ein gwastraff a'n hynni yn cynyddu o gymharu â'r cyfnod blaenorol)
  - Gwella sut rydym yn mesur ein hôl-troed carbon, a sefydlu ffigyrau i greu llinell sylfaen ystyrlon ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 (wedi'i gyflawni pan fydd y broses fesur ar waith).
- Mae ein Polisi Caffael yn dweud 'y dylai'r holl gaffael ystyried materion cynaliadwyedd'.

**Yn 2021/22, gwnaethom ymrwymo i barhau i annog staff i ystyried ffyrdd y gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.**

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiom ein sianeli cyfathrebu mewnol i rannu rhai canllawiau perthnasol â staff.

Ym mis Ionawr 2023, rhannom 4 postiad ag 'Adnoddau Bioamrywiaeth a Chynaladwyedd' a darparodd wybodaeth ar sut y gallwn fyw mewn ffordd sy'n parchu natur.

Ym mis Medi 2023, codom ymwybyddiaeth o fis Medi Ail-law, sef ymgyrch gan Oxfam sy'n hyrwyddo rhoi, ailddefnyddio, ail-wisgo ac ail-steilio eich dillad.

Rhoddodd un o'n timau o'u hamser i gasglu sbwriel gyda'i gilydd yn ein hardal a chasglwyd 1 bag o sbwriel ac 1 bag o ailgylchu.

Rydym hefyd wedi cynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwefrydd Cerbyd Trydan (EV) sydd ar gael yn y swyddfa. Bydd bod â'r cyfleuster hwn wedi cyfrannu at benderfyniadau staff i brynu car EV yn lle car tanwydd safonol. Hefyd, ers i denantiaid eraill weld bod gennym wefrydd EV wedi'i osod, maent hefyd wedi gosod gwefrydd arall.

**Gwnaethom hefyd ymrwymo i adolygu'r offer sydd ar gael i werthuso'n gynhwysfawr ein hôl troed carbon ac ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sydd ei angen i'w defnyddio.**

Rydym yn gwneud cynnydd ar y gwaith hwn. Rydym wedi dechrau defnyddio ffactorau trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y DU i'n helpu i adrodd ar allyriadau. Caiff rhan o'n hallyriadau ei gynhyrchu gan staff sy'n gweithio o gartref ac sy'n cymudo i'r swyddfa ac oddi yno. Rydym yn parhau i weithio ar ffyrdd o gofnodi'n gywir o ble mae staff yn gweithio a pha mor aml y maent yn teithio i'r swyddfa ac oddi yno.

## 2. Ymdrin â phwysau allweddol ar rywogaethau a chynefinoedd.

Mae ein hadeilad swyddfa yn cael ei brydlesu, sy'n cyfyngu ar ein gallu i wneud newidiadau i effeithlonrwydd ynni'r adeilad. Oherwydd hynny, mae ein gwaith i wella cynaliadwyedd a lleihau unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd wedi canolbwyntio ar leihau gwastraff, y defnydd o ynni ac allyriadau.

Yn unol â'n model o weithio hybrid ac ystwyth, gwnaethom barhau i gefnogi staff i weithio o gartref ond rydym hefyd wedi gwneud mwy o ddefnydd o'n swyddfeydd. Cynyddodd hyn y defnydd o ynni a gwastraff.

### Gwastraff a gynhyrchir ar y safle

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cymryd camau i leihau ein gwastraff yn sylweddol. Er enghraifft, mae ein holl is-ffeiliau achos bellach yn cael eu hanfon at y cynghorwyr proffesiynol mewn fformat electronig. Rydym yn defnyddio Objective Connect i'n galluogi i anfon ffeiliau mawr yn ddiogel ar-lein.

Fodd bynnag, mae nifer y gwastraff a gynhyrchiwn wedi cynyddu eleni. Roedd hyn o ganlyniad i leihad gofod ein swyddfa o fis Ionawr 2023 ac wrth i staff glirio eu desgiau a'u cypyrddau a lleihau ffeilio.

Gwnaethom barhau i gynyddu cyfran y gwastraff wedi'i ailgylchu hyd at 95% (o 94% yn 2021/22) a chyflawni 0% o wastraff i safleoedd tirlenwi.

### Trydan

O gymharu â'r llynedd, gwnaethom gynyddu dim ond ychydig ar ein defnydd o ynni, gan adlewyrchu'r ffaith bod mwy o staff wedi bod yn gweithio yn fwy rheolaidd o'r swyddfa.

### Staff yn gweithio o gartref

Gwnaethom barhau i gefnogi staff i weithio yn effeithiol o'u cartref. Gostyngodd milltiredd cymudo'r dydd ar gyfartaledd dim ond ychydig o gymharu â'r llynedd.

**Yn 2021/22, gwnaethom ymrwymo i ystyried effaith cynaladwyedd lleihau/addasu ein gofod swyddfa.** Ar y cyfan

- rhwng Rhagfyr 22 – Medi 23 rydym wedi gweld gostyngiad o tua 31% yn y defnydd o drydan yn y swyddfa.
- mae'r holl ddodrefn dros ben o'r llawr 1af a'r 2il lawr wedi'u gwaredu trwy eu rhoi i elusen neu wedi'u casglu i'w hailddefnyddio/ailbwrpasu sydd wedi osgoi mynd ag unrhyw ran ohonynt i safleoedd tirlenwi.
- rydym wedi prynu planhigion ein swyddfa ac rydym bellach

yn gofalu amdanynt ein hunain. Yn flaenorol, roedd y planhigion wedi'u rhentu ac yn cael eu gofalu gan gwmni allanol a fyddai'n teithio atom unwaith bob pythefnos, felly rydym bellach yn osgoi'r allyriadau teithio. Rydym wedi cadw'r un nifer o blanhigion ag oedd gennym ar gyfer y 3 llawr a fydd yn parhau i helpu i amsugno CO2 yn y swyddfa.

- rydym yn disgwyl gweld gostyngiad mewn gwastraff yn y tymor hwy, gan ein bod wedi cwblhau'r gwaith pennaf o glirio'r mannau swyddfa nad oedd yn cael eu defnyddio.

| Math o wastraff | 2019/20 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Gwastraff cyfrinachol (ailgylchwyd) (cg) | 8,650 | 7,920 | 16,320 |
| Ailgylchu cymysg (cg) | 2,346 | 712 | 572 |
| Gwastraff cyffredinol (cg) | 16,000 | 573 | 804 |
| Cyfanswm y gwastraff | **26,996** | **9,205** | **17,696** |
| $CO_2$e a arbedwyd (cg) | - | 1,228 | 2,612 |

| Defnydd trydan | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Defnydd (kWh) | 72,226 | 73,754 | 74,102 |
| Allyriadau a gynhyrchir (kg $CO_2$e) | - | 14,262 | 14,329 |

*** ffactorau trosi o ffactorau trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer adrodd gan gwmnïoedd (0.19338 fesul uned).**

| Allyriadau | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sydd yn gweithio yn swyddfa OGCC (rhan amser / llawn amser) | 72 (20 RhA / 52 LlA) | 74 (22 RhA / 52 LlA) | 77 (24 RhA / 53LlA |
| Nifer y staff sy'n Gweithio o Gartref am ran o'r wythnos | 72 | 74 | 65 |
| Diwrnodiau Gweithio o Gartref yr wythnos arferol | 308 | 315 | 301 |
| Milltiredd cymudo ar gyfartaledd a arbedwyd bob dydd | 2,281 | 2,706 | 2,199 |
| Cilogramau cyfartalog o $CO_2$ mewn allyriadau a osgowyd | 182,309 | 176,404 | 133,944 |

## 3. Sefydlu fframwaith o lywodraethiant a chefnogaeth ar gyfer cyflawni.

Mae gan y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant a Phennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol gyfrifoldeb dros berfformiad OGCC ynglŷn â chynaliadwyedd.

Mae Pennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol yn ymgymryd ag adolygiadau mewnol o berfformiad cynaliadwyedd OGCC bob dwy flynedd.

Mae canfyddiadau'r broses yn cael eu cyfathrebu i Dîm Rheoli OGCC, ac maent yn darparu gwybodaeth tuag at ein cynllunio strategol yn ogystal â'r adroddiad blynyddol cynaliadwyedd hwn.

# Newid hinsawdd a risg newid hinsawdd

Mae ein heffaith ar newid hinsawdd wedi'i chyfyngu gan natur y busnes, ac mae ein gallu i reoli rhai agweddau wedi'i gyfyngu gan ein meddiannaeth o adeilad ar rent ac adeilad a rennir ar barc busnes a reolir. Wedi dweud hynny, mae'n bwysig ein bod yn deall ein heffaith a'n bod yn cymryd camau i leihau effaith andwyol i'r eithaf ac i reoli canlyniadau newid hinsawdd.

Yn benodol gallwn:

- ystyried yr hyn rydym yn ei wneud a sut y gallwn gael effaith ar y newid hinsawdd, hyd yn oed lle gall ein heffaith fod yn fach
- lleihau a lliniaru gwastraff, ynni ac allyriadau
- rheoli risg sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ein hystyriaeth o'n heffaith ar newid hinsawdd, yn ogystal â bioamrywiaeth, ecosystemau a chynaliadwyedd.

Rydym yn cynnwys risg newid hinsawdd briodol yn ein cofrestr risg, i'w hystyried gan ein Tîm Rheoli a'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

# Adrodd a chynllunio

Rydym yn parhau i fonitro ac adrodd ar berfformiad cynaliadwyedd yn flynyddol.  Mewn cydymffurfiaeth â'r gofynion o dan adran 6, isadran (6) o Ddeddf yr Amgylchedd 2016, rydym yn nodi ar yr un pryd unrhyw feysydd ar gyfer gwella.

Gan edrych ymlaen, bydd y rhain yn cynnwys:

- cynnal defnydd o ynni a gwastraff er gwaethaf mwy o bresenoldeb yn y swyddfa
- gwella sut rydym yn mesur ein hôl troed carbon, i osod llinell sylfaen ystyrlon ar gyfer Blwyddyn 2 a 3 ein Cynllun Strategol
- annog staff i ystyried ffyrdd y gallant leihau eu heffaith ar yr amgylchedd.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales


Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 790 0203
E-bost: ask@ombudsman.wales
Dilynwch ni ar X: @OmbudsmanWales